## Beirniadaeth

**1af Rhosyn Gwyn - Y Golau Pell**. Roedd y stori yn gafael o'r dechrau a'r iaith yn llifo'n naturiol, yr eirfa yn gyfoethog a'r mynegiant yn Gymreig. Hoffais yr adeiladwaith crefftus a'r modd yr oedd yr awyrgylch yn cael ei liwio'n ofalus a'n paratoi at y diwedd annisgwyl ond eto hollol addas. Cryfder mawr yr ysgrifennu oedd yr amrywiaeth o ran hyd y brawddegau, yr ailadrodd bwriadol a'r disgrifio gwych. Hoffais hefyd y ffaith bod y teitl yn ganolog i'r cyfan ac roedd defnyddio'r teitl i gloi y stori yn drawiadol iawn. Stori afaelgar wedi'i hysgrifennu'n dda. Llongyfarchiadau

Rhosyn Gwyn (Adran A)

**Y Golau Pell**

Ro'n i'n meddwl fod y gaseg 'na'n drwbl. Doedd Dad ddim yn fy nghoelio.

Caseg fach ifanc, bropor oedd hi. Roedd hi'n siarp hefyd – â chlustiau fel llafnau miniog, a oedd yn symud wrth glywed y sŵn lleia'. Roedd ganddi got o flew euraidd brown oedd yn sgleinio'n goch llachar yn yr haul, ac ar ei hwyneb del roedd seren wen.

Mi ddaliodd hi lygad Dad un dydd wrth iddo sgrolio ar ryw wefan gwerthu 'ffyle. Meddai'r hysbyseb ei bod hi'n saith mlwydd oed, a dal yn dysgu sut i fihafio, ond roedd hi'n ennill rhubannau ym mhob sioe, a doedd 'run profiad wedi bod yn negyddol – ac mi gododd ei aeliau trwchus pan welodd bris digon rhesymol.

Rhywbeth i gymryd dy feddwl di i ffwrdd o bopeth fydd hi Elin. Dwi isie i ti gael caseg, ffrind i fynd ar anturiaethau gyda ti. Mi fuasai dy Fam wedi hoffi i ti gael caseg – roedd hi'n gyffylog iawn, w'sti. Dwi isie i fy hogan fach i gael hwyl. A falle mi fydd y gaseg yma'n berffaith.

Mi siaradodd Dad gyda'r perchennog am tua awr. Roedd hi'n swnio'n ddynes ddigon clên. Y rheswm roedd hi'n gwerthu oedd bod ei merch wedi colli diddordeb.

Doedd Dad ddim ym meddwl fod unrhywbeth yn bod arni hi. Caseg fach hardd. Ffeind.

Ond doeddwn i ddim yn ei thrystio.

Roedd 'na rywbeth amdani. Rhywbeth na fuasai'r ddynes 'na yn cyfadde'. Rhywbeth sinistr...

Ond, roedd hi'n lleol – roedd hi'n bencampwraig – roedd hi'n ddigon tawel.

Ac roedd Dad yn benderfynol o gael caseg i mi – ac roedd hon yn swnio'n berffaith.

Teimlad ym mêr fy esgyrn oedd o. Ddim byd mawr. Ddim byd seriws.

Rhosyn Gwyn (Adran A) Y Golau Pell

Ysgwydiad llaw. Arwyddo siec. Llwytho'r trelar. Roedd popeth yn dilyn y cynllun. Roedd popeth yn mynd yn iawn. Roedd popeth am newid. Er gwell .... ynteu er gwaeth?

* * *

Tyrd o 'na Elin. Ymlacia. Fe ddoi gyda ti rownd y cae.

Ro'n i'n edrych ymlaen. Ond – goblyn – ro'n i'n nerfus!

Roedd fy mherfeddion yn cwyno, a 'mol yn troi, a'm croen yn dynn dros fy nghorff.

"Mae hi 'di cael pythefnos i ymgartrefu. Mae'n siŵr o fod yn ymddiried ynddot ti erbyn hyn. Ty'd rŵan. T'ishe 'leg-up'?"

Pedolau trwm yn taro'r pridd. Ei mwng llachar yn dawnsio fel fflamau gwyllt yn y gwynt. Ei chynffon yn chwipio'r pryfed pitw a phlagus, a rheiny'n nadu wrth ein dilyn fel haid.

Roedd pob cam yn teimlo fel petai hi am garlamu i ffwrdd, a'm taflu bron i'r gofod ac yn ôl!

Ond roedd pob cam yn cael ei ddilyn gan un arall, ac ar ôl ychydig, mi ddes i i'w hoffi.

Roedd ei cherddediad yn esmwyth. Roedd hi'n wyliadwrus o bopeth o'i chwmpas, ac roedd hi'n hapus ac wedi ymlacio.

Roedd Dad yn dal yn yr awenau, yn arwain y gaseg ar hyd y llwybr.

Am funud, ro'n i'n teimlo fel bod Mam ei hun yn dal yn yr awenau, ac yn helpu fy arwain hefyd.
Dyna roedd hi'n ei wneud pan ro'n i'n eneth fach. Pan ro'n i'n marchogaeth hen Shetland Nain a Taid. Roedd Mam yn arfer dal yn yr awenau, a cherdded gyda mi, cyn gadael i'r hen boni bach drotian ymlaen yn awyddus, a finnau'n sboncian ac ysgwyd yn afreolaidd gan chwerthin yn hapus.
Teimlais ddwylo euraidd Mam yn dal yn yr awenau, ac am eiliad, teimlais ei gwres angylaidd yn fy nghofleidio yn dynn.
Rhosyn Gwyn (Adran A) Y Golau Pell
Ond, eto, do'n i byth yn meddwl y buasai o bach gan Dad yn gallu gwneud hyn i gyd. Jest codi llaw – ddim yn gas – ond dyna beth oedd y gaseg yn ei feddwl oedd o.
A rŵan, dwi ar goll.
Mae hi'n dawel.
Mae hi'n dywyll.
Mae hi'n ddistaw.
Mae hi'n ddu fel y fagddu.
Mae hi'n ddirgel
A dwi'm yn gwybod lle mae Dad, na fy mhoni bach.
Ond dwi'n gweld golau yn y pellter.
Ac mae o'n agosáu.
Fel y golau llachar sy'n fy nallu uwchben y gadair yn y deintydd.
Fel y golau llachar dros fwrdd llawdriniaeth.
Dyna beth ro'n i'n ei feddwl oedd o i ddechrau.
Ond, wedyn, mi bylodd y golau. Ac mi drodd yn bluen.
Ac mi ddoth yn fwy.
Ac yn fwy.
Ac yn fwy.
At y pwynt lle roedd y du o fy mlaen yn wyn fel cymylau perffaith.
Ac mi oedd o o'm cwmpas i nawr.
Mae hi'n dawel.
Mae hi'n olau.
Mae hi'n ddistaw.
Mae hi'n wyn fel plu colomen.
Mae hi'n ddirgel.
Ac ar ôl yr oerfel a'r unigrwydd yn y tywyllwch, teimlaf wres Mam yn fy nghofleidio unwaith eto, yn lapio o gwmpas fy nghorff, a'm dal yn dynn.
Dwi yn y golau pell.